NHS

Yr Asiantaeth Genedlaethol Dros Ddiogelwch Cleifion

Gwybodaeth i gleifion

Gwybodaeth

15 Medi 2004

Crynodeb yw hwn o'r wybodaeth a gyhoeddwyd i'r GIG

Sicrhau'r ddarpariaeth briodol o wacáu'r coluddyn â llaw ar gyfer cleifion sydd ag anaf sefydledig i fadruddyn y cefn

Beth yw gwacáu'r coluddyn â llaw?

Gall cleifion sy'n colli'r defnydd a'r rheolaeth arferol o'r coluddyn oherwydd difrod i nerfau madruddyn y cefn fod angen cymorth i wagio'r coluddion. Anaml iawn y mae gwacáu'r coluddyn â llaw, neu ddefnyddio'r bysedd i gael gwared ar ysgarthion, yn digwydd fel dull o ofalu am y coluddyn mewn ymddiriedolaethau GIG aciwt.

Mae pobl sydd ag anafiadau sefydledig i fadruddyn y cefn yn colli'r defnydd a'r rheolaeth arferol o'r coluddyn o ganlyniad uniongyrchol a pharhaol i ddifrod i'r nerfau. Mae llawer ohonynt yn dibynnu ar wacáu'r coluddyn â llaw fel eu dull hanfodol ac arferol o ofalu am y coluddyn.

Beth yw'r risg i ddiogelwch cleifion i gleifion gydag anafiadau madruddol?

I bobl sydd ag anafiadau sefydledig i fadruddyn y cefn, mae gwacáu'r coluddyn â llaw yn aml yn rhan o'r drefn gofalu am eu coluddyn. Gellir torri ar draws y drefn hanfodol, er enghraifft os oes angen iddynt gael ei derbyn i ysbyty cyffredinol y GIG nad yw'n arbenigo mewn trin anafiadau madruddol.

Nid yw staff nyrsio yn y math hwn o leoliad GIG cyffredinol yn cael eu cyfarwyddo i wneud y gwaith o wacáu'r coluddyn â llaw yn aml iawn a gall hyn arwain at ddryswch ynghylch sut y mae cyflawni hyn. Oherwydd y dryswch hwn, ac er gwaethaf y canllawiau clir sydd ar gael, mae gwacáu'r coluddyn â llaw wedi cael ei wrthod i rai cleifion ag anafiadau madruddol.

Gall methu â darparu gwacáu'r coluddyn â llaw arwain at ganlyniadau difrifol. Dyma un o achosion mwyaf cyffredin cyflwr o'r enw dysrefflecsia awtonomig gorbwysedd difrifol neu bwysau gwaed uchel), all arwain at waedlif ar yr ymennydd angheuol (gwaedu yn yr ymennydd) neu at ataliad y galon (trawiad ar y galon).

Beth mae Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion yn ei wneud i ddatrys y broblem?

Er mwyn sicrhau bod cleifion a staff yn gwybod yn union beth sy'n ddisgwyliedig parthed gwacáu'r coluddyn â llaw, mae'r NPSA yn:

- cyhoeddi rhybudd diogelwch cleifion (15 Medi 2004) i bob cyfarwyddwr nyrsio GIG yng Nghymru a Lloegr yn egluro'r materion.

  Mae'r rhybudd hwn, fydd yn cael ei rannu gyda staff nyrsio'r rheng flaen, yn darparu argymhellion clir i sicrhau bod cleifion ag anafiadau madruddol yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt ac y mae ganddynt hawl i'w dderbyn;

- gweithio gyda'r Gymdeithas Anafiadau Madruddol (SIA) i ddatblygu cerdyn gwybodaeth maint waled ar gyfer cleifion ag anafiadau madruddol.

  Bydd y cerdyn hwn yn esbonio i staff gofal iechyd bod y claf angen cael gwacáu'r coluddyn â llaw ac mae'n eu cyfarwyddo ar ffynonellau gwybodaeth pellach, megis polisi eu hysbyty a gwefannau SIA a'r NPSA.

Mae'r rhybudd diogelwch cleifion llawn ar gael ar wefan yr NPSA, sef www.npsa.nhs.uk/advice

Am fanylion pellach am y daflen wybodaeth i gleifion hon ac am waith yr NPSA, cysylltwch â:

Joanna Parker, Pennaeth Arfer Mwy Diogel
Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion
4-8 Maple Street
Llundain
W1T 5HD

Rhif ffôn: 020 7927 9500

Gwefan y Gymdeithas Anafiadau Madruddol:

www.spinal.co.uk

Llinell wybodaeth rhadffôn: 0800 980 0501